Dydd Sadwrn, Mai'r 3ydd, 2025

Cyfarfod y Prynhawn – 1 o'r gloch

Cyfarfod yr hwyr - 6 o'r gloch

Neuadd Bentref Y Talwrn, Ynys Môn

Tâl Mynediad:

Cyfarfod y Pnawn: Oedolion £3.00, Plant £1.00

Cyfarfod yr Hwyr: Oedolion £4.00, Plant £1.00

EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TALWRN 2025

Rhif Elusen Gofrestredig 512819

Llywyddion Anrhydeddus
Lowri Evans, Bodffordd
Catherine M. Jones, Llangefni
E. Olwen Jones, Talwrn

Beirniaid:
LLEFARU: Iwan Rhys Barker Jones
CERDD / CERDD DANT: Meurig Thomas
LLÊN: Y Prifardd John Gwilym Jones
LLÊN YR IFANC: Valmai Rees Jones
CELF a THECHNOLEG: Islwyn Williams

Cyfeilydd
Steven John Evans-Justice

Y PWYLLGOR

Cadeirydd: Islwyn Humphreys

Ysgrifennydd: Helen Evans Taleilian, Talwrn, LL77 7TF (01248 - 723038), taleilian@hotmail.co.uk
Trysorydd: Bethan Hughes-Owen
Is-Drysorydd: Julie Kieran

Aelodau eraill: Robat Idris, Nia Wyn Efans, Nia Medi Williams, Ann Postle a Gwilym Bennett.

Deddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae'n ddyletswydd i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost), yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion a chyfranwyr. Os ydych chi'n dymuno i ni ddileu eich manylion, cysylltwch.



Côd Post y Neuadd yw: LL77 7ST

AMODAU'R EISTEDDFOD

1. Cynnyrch Llenyddol i fod yn llaw'r ysgrifennydd **erbyn Ebrill 11eg** gyda enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ymgeisydd. Derbynnir gwaith hefyd drwy yrru e-bost at **taleilian@hotmail.co.uk**
2. **Dychwelir y cyfansoddiadau os derbynnir cais ysgrifenedig gydag amlen stampiedig o fewn pythefnos ar ôl yr Eisteddfod.**
3. Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr sydd yn dymuno cystadlu yn y cystadlaethau llwyfan i anfon eu henwau o flaen llaw drwy e-bostio taleilian@hotmail.co.uk neu drwy ffonio Helen Evans. Rhaid Cofrestru cyn i'r Gystadleuaeth ddechrau.
4. **Cystadleuwyr i ofalu am gopiau i'r Beirniad a'r Cyfeilydd.**
5. **Sylwadau byr yn unig a draddodir o'r llwyfan os bydd amser yn caniatau.**
6. **Holl gynnyrch yn y cystadlaethau Celf a Thechnoleg i fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn 4 o'r gloch, Ebrill 29ain, 2025 (Dydd Mawrth). Rhaid nodi ffugenw, y testun, a'r gystadleuaeth ar y gwaith a nodi enw priodol a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl gyda'r gwaith.**
7. **Cwpan y Côr i'w dal am flwyddyn ac i'w dychwelyd i'r Ysgrifennydd wythnos cyn yr Eisteddfod nesaf.**
8. **Cymraeg yw iaith holl gystadlaethau'r Eisteddfod yn ysgrifenedig ac ar lwyfan heblaw am y Brif Unawd.**
9. Ni ystyrir unrhyw waith a wobrwywyd mewn unrhyw eisteddfod o'r blaen. Ni chaniateir i'r un darn o waith gael ei ystyried mewn mwy nag un gystadleuaeth a rhaid i'r cynnyrch fod yn waith dilys yr ymgeisydd.
10. **RHYBUDD: Mae llungopio Cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.**
11. Ni chaniateir unrhyw wrthdystiad cyhoeddus a bydd barn y beirniaid yn derfynol ym mhob adran.
12. Ble'n briodol bydd hawl gan y pwyllgor i atal neu aildrefnu gwobr.
13. **Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd ynglyn â'r Eisteddfod.**

PRYNHAWN SADWRN 1:00

Ar gyfer cystadlaethau hunan ddewisiad, gofynnir i gystadleuwyr sydd yn dymuno derbyn gwasanaeth y cyfeilydd swyddogol ddanfon copi o'r cyfeiliant i'r Ysgrifennydd, Helen Evans erbyn Dydd Sadwrn, Ebrill 19eg.

1. Unawd Blwyddyn 1 a 2: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: Medal a £1.50; £1; 50c
2. Llefaru Blwyddyn 1 a 2: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: Medal a £1.50; £1; 50c

   Canlyniadau Cystadlaethau Gwaith Cartref Blwyddyn 1 a 2
3. Unawd Blwyddyn Derbyn, Meithrin ac Iau: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: Medal a £1.50; £1; 50c
4. Llefaru Blwyddyn Derbyn, Meithrin ac Iau: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: Medal a £1.50; £1; 50c

   Canlyniadau Cystadlaethau Gwaith Cartref Blwyddyn Derbyn Meithrin ac Iau
5. Unawd Blwyddyn 3 a 4: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: Medal a £2; £1.50; £1

   Canlyniadau Cystadlaethau Gwaith Celf Blwyddyn 3 a 4

6. Llefaru Blwyddyn 3 a 4: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: Medal a £2; £1.50c; £1

Canlyniadau Cystadlaethau Ysgrifennu Creadigol Blwyddyn 3 a 4

7. Canu unrhyw offeryn i ddisgyblion Ysgol
Gynradd: Hunan Ddewisiad hyd at dri munud.
Gwobrau: Medal a £3; £2; £1

8. Llefaru Blwyddyn 5 a 6:Hunan Ddewisiad
Gwobrau: Medal a £3; £2; £1

9. Unawd Blwyddyn 5 a 6: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: Medal a £3; £2; £1

Canlyniadau Cystadlaethau Gwaith Ysgrifennu Creadigol Blwyddyn 5 a 6

Seremoni Tlws yr Ifanc.

10. Canu Emyn Blwyddyn 6 neu iau: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: Medal a £3; £2; £1

Canlyniadau Cystadlaethau Gwaith Celf Blwyddyn 5 a 6

11. Parti Llefaru Oedran Ysgol Gynradd:
Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £15; £10; £5

12. Parti Unsain Oedran Ysgol Gynradd:
Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £15; £10; £5

13. Côr Oedran Ysgol Gynradd:
Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £20; £10; £5

Cyflwyno Gwobrau Arbennig

) Tlws i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Ysgrifennu Creadigol.

) Tlws i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Gelf a Thechnoleg.

) Tlws i'r cystadleuydd llwyfan mwyaf addawol yn ystod y prynhawn.

NOS SADWRN 6:00 O'R GLOCH

Gofynnir i gystadleuwyr sydd yn dymuno derbyn gwasanaeth y cyfeilydd swyddogol i ddanfon copi o'r cyfeiliant i'r Ysgrifennydd, Helen Evans erbyn Ebrill 19eg, 2025.

1. Unawd Canu Emyn agored: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £20; £15; £10
2. Unawd Alaw Werin o dan 16 oed: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £10; £8; £5
3. Llefaru o dan 16 oed: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £10; £8; £5
4. Unawd o dan 16 oed: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £10; £8; £5
5. Unawd Offerynnol dan 16 oed: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £10; £8; £5
6. Unawd Cerdd Dant dan 16 oed: Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £10; £8; £5
7. Cystadleuaeth Perfformio Mewn Cymeriad. Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o sgriptiau. Oedran 16 i 25 oed. Caniateir gwisgoedd a props. Bydd cystadlu mewn dwy Eisteddfod Leol rhwng Mai 2024 a diwedd Mai 2025 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Sgriptiau ar gael o wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - www.steddfota.cymru
   Gwobrau: £20; £ 15; £10
8. Ensemble Lleisiol (rhwng 3 a 8 mewn nifer): Hunan Ddewisiad
   Gwobrau: £20; £15; £10

9. Llefaru darn heb ei atalnodi ar y pryd
   Gwobrau: Hyd at £25 i'w rannu

Seremoni Cadeirio a Chyflwyno Plât

10. Unawd 16 - 25 oed: Hunan Ddewisiad
    Gwobrau: £20; £15; £10

11. Llefaru 16 - 25 oed: Hunan Ddewisiad.
    Gwobrau: £20; £15; £10

12. Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant: Hunan Ddewisiad
    Gwobrau: £20; £15; £10

13. Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru: Unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth huan ddewisiad, heb fod yn hwy 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellir hefyd ddefnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
    Gwobrau: Cwpan (er cof am John Williams, Tan y Bryn) a £150; £100; £50

14. Cyflwyno trysor neu lun o ddiddordeb personol: Hyd at 3 munud
    Gwobr: Hyd at £25 i'w rannu

15. Unawd Gymraeg Agored: Hunan Ddewisiad. *Gwobrau: £20; £15; £10*

16. Monolog Agored: Perfformiad hyd at 5 munud
    Gwobrau: £20; £15; £10

17. Unawd o unrhyw Sioe Gerdd neu Ffilm Agored: Hunan Ddewisiad
    Gwobrau: £20; £15; £10

18. Can Werin Agored: Hunan Ddewisiad
    Gwobrau: £20; £15; £10

19. Sgen Ti Dalent? I unigolion neu grwpiau. Gwahoddir cystadleuwyr i

ddiddanu cynulleidfa am ddim hwy na 4 munud. Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol; rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith; ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall yn yr eisteddfod.
Gwobrau: £20; £15; £10

20. Unawd Cerdd Dant Agored: Hunan Ddewisiad
Gwobrau: £20; £15; £10

21. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Cerdd neu ddarn o ryddiaith gyfoes
Gwobrau: £40 a Thlws; £30; £20

22. Y Brif Unawd: Unrhyw unawd o Opera, Oratorio neu Lieder.
Gwobrau: £40 a Thlws; £30; £20

CYSTADLAETHAU CARTREF

Barddoniaeth

1. Y Gadair: Cloch - Cerdd gaeth neu rydd, dim mwy na 100 llinell. Gwobrau: Cadair fechan a £40; £30; £20.
2. Englyn – yn cynnwys y gair 'sŵn'.

   Gwobrau: £10; £8; £5

3. Cerdd Ysgafn – **Donald**. Hyd at 25 llinell. *Gwobrau: £10; £8; £5*
4. Emyn ar gyfer Y Gwanwyn (Geiriau'n Unig) *Gwobrau: £10; £8; £5*
5. Llinell goll: Cwblhau'r Limrig. *Gwobrau: £5; £3; £2*

   Un noson gerllaw Dafarn Dirion,
   Mi welis-i gialipiwirion
   Un denau felynddu
   Yn chwerthin wrth ganu

   _

6. Limrig yn cynnwys y llinell:
   Ar ôl bod yn dathlu'n Nant 'Rodyn
   Gwobrau: £5; £3; £2

Rhyddiaith

1. Stori Fer neu Ysgrif: Dathlu
   Gwobrau: Plât a £40; £30; £20
2. Ffurfio brawddeg o'r gair: Cymdogion

   Gwobrau: £5; £3;£2.

3. TLWS YR IFANC i rai dan 21 oed. Darn o lenyddiaeth creadigol hyd at 2,000 o eiriau. Gwobrau: Tlws yr Ifanc a £30; £20; £10
4. Blwyddyn 10 ac 11: Darn o ryddiaith Creadigol *Gwobrau: £8; £6; £4*
5. Blwyddyn 7, 8 a 9: Darn o ryddiaith creadigol. *Gwobrau: £7; £5; £3*
6. Cystadleuaeth i oedolion sy'n dysgu Cymraeg: Llythyr at ffrind. (Y dysgwyr i nodi eu lefel wrth ymgeisio) *Gwobrau: £10; £8; £5*

Creadigol

Rhyddiaith:

1. Blwyddyn Derbyn, 1 a 2: Gwyliau
   Gwobrau: Medal a *£1.50; £1; 50c*
2. Blwyddyn 3 a 4: Pamffled neu dafle wybodaeth am Atyniad Lleol
   Gwobrau: Medal a *£2; £1.50; £1*

3. Blwyddyn 5 a 6: Fy Hoff Le
Gwobrau: Medal a *£3; £2; £1*

Barddoniaeth:

1. Blwyddyn 3 a 4: Fy Milltir Sgwâr
Gwobrau: Medal a *£2; £1.50; £1*

2. Blwyddyn 5 a 6: Fy Milltir Sgwâr
Gwobrau: Medal a *£3; £2; £1*

Celf a Thechnoleg

Gwaith 2D:

1. Blwyddyn Derbyn ac Iau: Fy Nghartref
Gwobrau: Medal a *£1.50; £1; 50c*

2. Blwyddyn Derbyn, 1 a 2: Cynefin
Gwobrau: Medal a *£1.50; £1; 50c*

3. Blwyddyn 3 a 4: Cynefin
Gwobrau: Medal a *£2; £1.50; £1*

4. Blwyddyn 5 a 6 – Cynefin
Gwobrau: Medal a *£3; £2; £1*

5. Agored: Cynefin
Gwobrau: £8; £6; £4

Gwaith 3D:

1. Blwyddyn 1 a 2: Cerbyd
Gwobrau: Medal a *£1.50; £1; 50c*

2. Blwyddyn 3 a 4: Cerbyd
Gwobrau: Medal a *£2; £1.50; £1*

3. Blwyddyn 5 a 6: Cerbyd
Gwobrau: Medal a *£3; £2; £1*

Cyfrifiadureg:

1. Ysgol Gynradd: Delwedd o lan y môr
Gwobrau: Medal a *£3; £2; £1*

NODDWYR / RHODDION

Dymuna'r pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob rhodd a gweithred er llwyddiant yr Eisteddfod. Ni fydd modd i'r Eisteddfod ffynnu heb gefnogaeth ei charedigion.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu nawdd a'u cyfraniadau:

Cronfa Eisteddfod Genedlaethol Môn 1957
Ymddiriedolaeth James, Pantyfedwen
Cyngor Cymuned Llanddyfnan
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru